# TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL LLANDYFAELOG
# COMMUNITY NEWSLETTER



Photo – Rob Ashcroft

# CYFLWYNIAD / INTRODUCTION

Croeso i Rifyn Gwanwyn Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf erbyn 1af Mehefin 2022.

Welcome to the Spring Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition by 1st June 2022.

# Teyrngedau i'r Cyng Mair Stephens / Tributes to Cllr Mair Stephens



**Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council**

Gyda thristwch mawr mae Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn nodi marwolaeth y Cyng Mair Stephens. Mair oedd yr aelod oedd wedi gwasanaethi'n hiraf ar y Cyngor ac roedd wedi gwasanaethu fel Cadeirydd ar sawl achlysur. Mae gwasanaeth anhygoel Mair i'n Cymuned yn cynnwys bron i 2 ddegawd fel Cynghorydd Sir, bod yn Gadeirydd Neuadd Gymunedol Llandyfaelog ac yn Llywydd, Cadeirydd ac Ysgrifennydd Sioe Amaethyddol Llandyfaelog. Gwasanaethodd Mair ein Cymuned yn ddiflino a chydag ymroddiad a rhagoriaeth, cafodd ei pharchu'n gyffredinol a bydd colled fawr ar ei hôl gennym ni i gyd. Dywedodd Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandyfaelog, y Cyng Elfyn Williams 'Rwyf i a holl aelodau'r Cyngor wedi fy nhristau'n fawr gan farwolaeth Mair. Gwnaeth hi wasanaethu'r Cyngor Cymuned a'n Cymuned yn arbennig mewn cymaint o ffyrdd dros nifer fawr o flynyddoedd. Teimlir ei cholled gyda thristwch mawr a rhydem yn meddwl am y teulu ar yr adeg hon'.

It is with great sadness that Llandyfaelog Community Council marks the passing of Cllr Mair Stephens. Mair was the Council's longest serving member and had served as Chairperson on a number of occasions. Mair's incredible service to our Community includes almost 2 decades as County Councillor, being Chairperson of Llandyfaelog Community Hall and the President, Chairperson and Secretary to Llandyfaelog Agricultural Show. Mair served our Community tirelessly and with dedication and distinction, she was universally respected and will be greatly missed by us all. Llandyfaelog Community Council Chairman, Cllr Elfyn Williams said 'I and all members of the Council are deeply saddened by Mair's passing. She was an outstanding servant to the Community Council and our Community in so many ways over a great number of years. Her loss is felt with great sorrow and our thoughts are with the family at this time'.

**Neuadd Gymunedol Llandyfaelog Community Hall**

Yng nghyfarfod Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llandyfaelog a gynhaliwyd ar 17eg Chwefror 2022, mynegodd y Cadeirydd Rowena Phillips ar ran yr holl aelodau eu tristwch o golli'r Cynghorydd Mair Stephens a chydymdeimlad dwysaf y Pwyllgor â theulu Mair. Roedd Mair wedi gwasanaethu ar Bwyllgor y Neuadd am nifer o

ddegawdau ac wedi dal rôl y Cadeirydd ar sawl achlysur. Addas felly oedd bod Mair wedi perfformio agoriad y maes chwarae Cymunedol newydd ar gyfer Llandyfaelog ym Mehefin 2018. Dros nifer o flynyddoedd hefyd roedd Mair wedi prynu'n bersonol yr anrhegion a ddarparwyd gan Siôn Corn i blant y Gymuned yn y digwyddiad goleuadau Nadolig blynyddol, er ni fyddai hi byth yn disgwyl unrhyw ganmoliaeth gyhoeddus am yr haelioni hwn. Cafodd ei pharchu'n gyffredinol gan ei ffrindiau ar y Pwyllgor a bydd colled fawr ar ei hôl. Arweiniodd Rowena yr aelodau i sefyll am funud o dawelwch fel teyrnged i Mair.

At the meeting of Llandyfaelog Community Hall Committee held on the 17th February 2022, Chairperson Rowena Phillips expressed on behalf of all members their sorrow at the loss of Cllr Mair Stephens and the Committee's deepest sympathy to Mair's family. Mair had served on the Hall Committee for a number of decades and had held the role of Chairperson on multiple occasions. It was only fitting therefore that Mair performed the opening of the new Community play area for Llandyfaelog in June 2018. Mair had over a number of years also personally purchased the gifts that Father Christmas provided to the Community children at the annual Christmas lighting event, though she would never expect any public praise for this generosity. She was universally respected by all her friends on the Committee and will be greatly missed. Rowena led members in standing for a minute's silence in tribute to Mair.

**Eitem yn Cylchgrawn Cwlwm / Item in Cwlwm Community Magazine**

Gyda thristwch y cofnodir marwolaeth ein Cynghorydd Sir lleol, sef Mair Stephens o Glanmarlais ar Ionawr 9fed yn dilyn tostrwydd a wynebodd yn ddewr. Mae ein meddyliau gyda'i gŵr Ralph, ei mab Rhys a'i mam Dilys. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Llandyfaelog ar Ionawr 26ain ac yna yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth. Bu'n Gynghorydd Sir annibynnol dros ward Llanismael ers 2004 gan wasanaethu ei chymunedau yn gydwybodol a diffuant gan gael ei dyrchafu yn ddirprwy arweinydd y Cyngor dros y saith mlynedd diwethaf. Roedd yn aelod gweithgar o'r Cyngor Cymuned lleol ac yn gefnogol i Eglwys, Sioe a Neuadd Llandyfaelog. Bu'n hynod weithgar gyda Sefydliad y Merched (WI) yn lleol, sirol a chenedlaethol yn ogystal â nifer o elusennau eraill.

It is with great sadness that the death of our local County Councilor, Mair Stephens of Glanmarlais is recorded on January 9th following a bravely faced illness. Our thoughts are with her husband Ralph, her son Rhys and her mother Dilys. The funeral was held at Llandyfaelog Church on January 26th and then at Parc Gwyn Crematorium, Narberth. She has been an Independent County Councilor for St Ishmaels ward since 2004 serving her communities conscientiously and sincerely and has served as Deputy Leader of the Council for the past seven years. She was an active member of the local Community Council and a supporter of Llandyfaelog Church, Show and Hall. She has been extremely active with the Women's Institute locally, county and national as well as many other charities.

## Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

| Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor | Council Meeting Dates |
|---|---|
| 7 Ebrill 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog neu o bell | 7 April 7.30pm, Llandyfaelog Hall or remotely |
| 12 Mai 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog neu o bell | 12 May 7.30pm, Llandyfaelog Hall or remotely |

Cysylltwch â'r Clerc os hoffech chi fynychu'r cyfarfod yn bersonol neu o bell.

Please contact the Clerk should you wish to attend the meeting in person or remotely.

Gellir gweld cofnodion ac agenda cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn
Cyfarfod, Agenda a Chofnodion - Llandyfaelog Community Council - Cym (visionict.com)

Community Council minutes and meeting agenda can be found at
Meetings, Agendas and Minutes - Llandyfaelog Community Council - Eng

---

# Cystadleuaeth Bwgan Brain

# Scarecrow Competition

### Cynlluniwch a gwnewch fwgan eich hun

### Design and make your own scarecrow

Arddangoswch erbyn Dydd Gwener 29ain Gorffennaf.

Display outside your property by Friday 29th July.



Barnu ar derchrau mis Awst

Judging to take place at the beginning of August

1af 1st - £25

2il 2nd - £20

3ydd 3rd - £10

**Cysylltwch ag Arfon ar 07772254393 / llandyfaelog@btinternet.com i gofrestri eich ymgais, neu efallai ni fydd eich bwgan yn cael ei barnu**

**Please contact Arfon on 07772254393 / llandyfaelog@btinternet.com to register your entry, or your scarecrow may not be judged.**

**Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council**

## Cystadleuaeth Gardd Gymunedol

Mae'r Cyngor Cymuned yn cynnal cystadleuaeth i ddod o hyd i erddi orau'r Gymuned.
Hoffem dderbyn eich enwebiadau am yr ardd gorau i'r Clerc.

Mae yna bedwar categori - Ardd Blodau Blychau, Ardd Blodau Bach, Ardd Blodau Mawr a Gardd Llysiau

Bydd yr erddi llysiau enwebedig yn cael eu barnu yn ystod mis Mehefin,
gyda gerddi flodau ar ddechrau Mis Awst.

Bydd yna noson gwobrwyo yn cael ei gynnal yn ystod Mis Awst.

Fwy o wybodaeth i ddilyn, enwebiadau i'r Clerc erbyn diwedd mis Mai os gwelwch yn dda.

Gwobr o £25.00 i enillydd pob categori a £50.00 i'r ardd orau yn gyffredinol.



## Community Garden Competition

The Community Council is holding a competition to find the best gardens in the Community.
Please provide nominations to the Clerk for the best garden.

There are four categories – Container Garden, Small Flower Garden, Large Flower Garden and Vegetable Garden.

The nominated vegetable gardens will be judged in June
with the flower gardens in early August.

A prize giving evening will be held in mid-August.

More information to follow, please send nominations to the Clerk by the end of May.

£25.00 prize for each category winner and £50.00 for the best overall garden.

## Neuadd Cymunedol Llandyfaelog Community Hall

### Clwb 100 2021 / 2021 100 Club

Mae tanysgrifiadau ar werth ar gyfer Clwb 100 Neuadd Gymunedol Llandyfaelog, cysylltwch ag Arfon Davies, Ysgrifennydd neu Shan Rees, Trysorydd am fwy o wybodaeth.

Subscriptions are on sale for the Llandyfaelog Community Hall 100 Club, please contact Arfon Davies, Secretary or Shan Rees, Treasurer for more information.

### Swydd Gofalwr

Mae Pwyllgor Neuadd Gymunedol Llandyfaelog yn chwilio Gofalwr ar gyfer y Neuadd.

Os oes gennych ddiddordeb neu am wybodaeth bellach, cysylltwch ag Ysgrifennydd y Neuadd.

### Caretaker Position

Llandyfaelog Community Hall Committee is seeking to appoint a Caretaker for the Hall.

If you are interested or for further information, please contact the Hall Secretary.

### Cais am gwybodaeth Hanes Teuluol / Family History information request

The Community Council has received the below family history information request, if you have any detail, please would you contact the Clerk.

I am researching my Lloyd family history and I have traced my direct line back to Llandyfaelog and Llangyndeirne in the period 1740 – 1854. They were all stone masons during that time and may have built some of the older buildings in the area, but many migrated to the Merthyr area in the 1830s and early 1840s for work.

I am writing to ask whether you or the council are aware of anyone in the locality who may have further information.

## Capel Penygraig



Gyda thristwch mawr derbyniwyd y newyddion am farwolaeth ein Gweinidog Y Parch Meirion Sewell ar Ionawr 20fed. Bu farw yn Ysbyty Glangwili wedi salwch byr yn 84 mlwydd oed. Mae'n gadael bwlch mawr ar ei ôl a chydymdeimlwn gyda'i wraig Ann, ei fab-yng-nghyfraith Nigel a'i wyrion Aled, Geraint ac Arwel. Cynhelir yr angladd yn Amlosgfa Llanelli ar ddydd Gwener, Chwefror 11eg.

Ganed Meirion Sewell yn y Tymbl a'i fagu yn y ffydd yn eglwys Bethesda. Bu'n gweithio fel saer maen yn gosod brics i godi tai cyn cael yr alwad i fynd i'r weinidogaeth gan fynychu'r Coleg Goffa yn Aberhonddu ac yna yn Abertawe. Cafodd ei ordeinio a'i sefydlu ym Myddfai a Bwlch-y-rhiw ger Llanymddyfri ym 1963 lle bu'n arwain gweithgareddau llewyrchus ar gyfer pobl ifanc. Yna derbyniodd alwad i Ryd-y-bont, Llanybydder ym 1969 ac ar ôl tair blynedd symudodd i Gapel Iwan. Yn 1979 symudodd a chymryd gofalaeth Gibeon, Taibach a'r Tabernacl Newydd ym Mhort Talbot. Yn 1984 cafodd alwad i Gibea, Brynaman a Bethania, Rhosmaen ac yna i Dabernacl, Porthcawl yn 1995. Yn ystod ei ymddeoliad derbyniodd alwad i Benygraig a Rama yn 2003 i fod yn Weinidog rhan amser a buom yn dathlu ei hanner canmlwyddiant yn y Weinidogaeth yn 2013.

**Cydymdeimlad**

Ar Ragfyr 28ain bu farw Lyn Evans, Nantoer, Llansaint yn 96 mlwydd oed. Yn gyn-aelod yng Nghapel Tabor, ymaelododd â Phenygraig a bu'n ffyddlon cyn i'r pandemig a'i hafiechyd amharu ar ei phresenoldeb. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth o dan ofal ein diweddar Weinidog ar Ionawr 7fed. Cydymdeimlwn yn fawr â'i merch Veronica a'r teulu cyfan. Roedd Lyn yn wraig ddiwylliedig iawn a theimlir y golled yn fawr ym mhentref Llansaint oherwydd roedd Lyn yn meddu ar gof rhyfeddol am hanes Tabor a'r pentrefwyr.

Ar Ionawr 11eg cynhaliwyd angladd a gwasanaeth o ddiolchgarwch am fywyd Margaret Lloyd Richards yn y capel o dan ofal ein diweddar Gweinidog a chafwyd darlleniad gan Bethan Richards a theyrnged deimladwy gan Mark Lawrence yn

adlewyrchu ei bywyd gan nodi rhai atgofion amdani. Cydymdeimlwn yn fawr gyda Huw a Sian a'u teuluoedd yn ei galar.

Cydymdeimlwn hefyd gyda theulu Moelfre Uchaf yn dilyn marwolaeth Sylvia Parry ynn ystod mis Ionawr a hynny wedi salwch hir. Un o Ynys Môn oedd Sylvia a bu'n mynychu oedfaon Penygraig yn rheolaidd cyn cyfnod y pandemig a chyn i'w hiechyd ddirywio. Mae ein meddyliau gyda ei merch Shân, ei mab-yng-nghyfraith Peter a'i hwyres Enlli yn eu hiraeth a'u colled.

**Oedfaon**
Cynhaliwyd oedfa aelodau ar Ionawr 16eg yn absenoldeb y Gweinidog ar y thema 'Addunedau'. Y Parch Iwan Vaughan Evans oedd y cennad ar Ionawr 23ain a'r Parch Gareth Ioan ar Ionawr 30ain.

## Merched y Wawr Glannau Pibwr

Wrth groesawu'r aelodau i gyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd ar Ionawr 20fed, diolchodd Rhiannon, y Llywydd i Jane Morgan a Heather Gingell am wneud y trefniadau ar gyfer cyfarfod rhithiol arall. Roedd cangen Peniel wedi cael gwahoddiad i ymuno â ni a braf oedd croesawu rhai o'r aelodau i'n plith.

Ein gwestai oedd Ruth Shelley, artist sy'n gweithio gyda gwydr lliw. Bydd nifer yn cofio'r erthygl lliwgar yn Y Wawr y llynedd yn dangos rhai o'i chasgliadau hyfryd. Merch o Ystumtuen ger Ponterwyd, Ceredigion yw Ruth ond bellach mae wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd. Wedi gadael ysgol aeth i Goleg Celf Caerfyrddin i astudio gweu a gwehyddu. Yn ddiweddarach trodd ei llaw at weithio gyda gwydr lliw. Erbyn hyn mae'n cynhyrchu gweithiau celf bendigedig ac yn ei chyflwyniad gwelsom sleidiau yn dangos sut y dylanwadodd ei theithiau dramor a byd natur ar y lliwiau a'r patrymau yn ei gwaith. Cawsom noson bleserus yn ei chwmni a chael cipolwg ar gymaint o feddwl, amynedd a dyfalbarhad sydd angen i gynhyrchu gweithiau mor gain.

Wedi'r diolchiadau gan Rhiannon a Helen o Beniel atgoffwyd yr aelodau mai Carwyn Graves fydd gyda ni ym mis Chwefror i siarad am hanes bwydydd Cymru. Croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni.